NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Technolegau colposgopi atodol ar gyfer asesu abnormaleddau serfigol a amheuir: colposgop DYSIS gyda DYSISmap a ZedScan I

25 Ebrill 2018

Mae NICE wedi asesu dwy dechnoleg colposgopi atodol (colposgopi DYSIS gyda DYSISmap a ZedScan I) er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn ai peidio.

Colosgopi yw archwiliad sy'n defnyddio colposgop i roi delweddau wedi'u chwyddo o geg y groth, er mwyn profi am abnormaleddau. Mae colposgop DYSIS gyda DYSISmap a ZedScan I, a ddefnyddir ochr yn ochr â'r colosgop safonol, yn tynnu sylw at rannau abnormal yng ngheg y groth. Yna, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnig rhagor o brofion a thriniaeth os bydd angen.

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio colposgop DYSIS gyda DYSISmap yn y GIG, er yr argymhellir y dylid gwneud rhagor o waith ymchwil.

Er bod ZedScan I yn addawol, mae NICE wedi dweud bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil cyn y gellir ei ddefnyddio yn y GIG.

ISBN: 978-1-4731-7487-0



© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights